

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd  
COFNODION CYFARFOD MISOL  
5 Medi 2013; 7.30yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

**PRESENNOL :**

Cynghorwyr Erddyn Davies (Cadeirydd), Eddie Hughes, Gwyneth Thomas, Emyr Williams, Ifor Williams, Sioned Williams a Dafydd Iwan.  
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

**1. DATGAN DIDDORDEB / BUDDIANT PERSONOL**

Dim

**2. YMDDIHEURIADAU**

Cynghorwyr Geraint Jones a Rhys Pugh.

**3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cadarnhawyd gydag un newid sef bod y Cynghorydd Emyr Williams yn bresennol.

Cynnig: Emyr Williams; Eilio: Dafydd Iwan

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**4.1 PROBLEMAU PARCIO LÔN GROES :**

Y Clerc i gysylltu â pherchnogion newydd Cartref Bontnewydd er mwyn canfod a fyddai ganddynt ddi-ddordeb mewn gwerthu darn o dir er mwyn i'r Cyngor Cymuned fedru darparu llecynnau parcio ychwanegol yn y Lôn Groes.

Bu trafodaeth yn flaenorol gyda Dafydd Wyn Williams, Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Cyngor Gwynedd, pryd y cytunwyd y byddai Cyngor Gwynedd yn paratoi cynlluniau ar gyfer gwneud addasiadau er mwyn gwella'r sefyllfa barcio yn y Lôn Groes. Gofynnwyd i'r clerch ofyn am ddiweddariad.

**4.2 FFORDD RHOS-BACH AT GAE HOBSON:**

Derbyniwyd ateb gan Gyngor Gwynedd yn dweud eu bod wedi asesu'r ffosydd, ac mai'r ateb delfrydol fyddai pibellu'r ffosydd ac ymestyn wyneb y ffordd drostynt. Fodd bynnag, gan fod hyn yn medru achosi problemau megis pibellau'n cau a rhwystro llif y dŵr, byddai'r Cyngor yn ystyried atgyfnerthu ochrau'r ffosydd a gosod rhybuddion ychwanegol yn rhybuddio defnyddwyr ffordd o bresenoldeb y ffos.

Penderfynwyd gofyn am gyfarfod safle er mwyn trafod yr opsiynau ymhellach gyda Chyngor Gwynedd. Y Clerc i drefnu cyfarfod safle.

**4.3 GORYRRU YN LLANFAGLAN :**

Yn dilyn cwynion, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi mesur cyflymder yn Llanfaglan, ac yn fodlon ei bod hi'n addas sicrhau gorfodaeth o 30 mya fel cyflymder. Bwriedir gwneud hyn drwy gynllun GanBwyll Heddlu Gogledd Cymru. Bydd cerbyd gorfodaeth GanBwyll yn cael ei osod yn y pentref er mwyn sicrhau gorfodaeth, a'r gobaith yw y bydd hyn yn arwain at leihad yn nifer yr achosion o oryrru.

**4.3 PARC Y PLWYF, LLANFAGLAN :**

Dim ond 1 contractor o'r 4 a wahoddwyd, wnaeth ddatgan diddordeb yn y gwaith arfaethedig, Cytunwyd felly i ofyn i North Wales Fencing fwrw ymlaen â'r gwaith ym Mharc y Plwyf Llanfaglan ac i osod bwrdd gwbyodaeth yn lle'r un presennol yn y Sgwâr, Y Bontnewydd, yn unol â'u dyfynbris.

**4.4 SEDD WAG :**

Cytunwyd fod angen cyfethol aelodau ar gyfer y ddwy sedd sedd wag yn y Bontnewydd yn dilyn ymddeoliad y Cynghorydd Hilma Lloyd Edwards ac ymddiswyddiad y Cynghorydd Marian Roberts. Mae'r Clerc i osod hysbysiad gyda manylion y cofnodion fydd yn mynd i'r wasg.

## **5. MATERION ARIANNOL**

Cadarnhawyd fod y Cyngor wedi derbyn taliad o £7,000 drwy drosglwydiad BACS fel archebiant gan Gyngor Gwynedd.

Mae angen newid y llofnodau ar y cyfrif, oherwydd y newid yng Nghlerc y Cyngor. Bydd y Clerc yn cysylltu â Banc HSBC er mwyn gwneud hyn.

Mae gan y Cyngor gytundeb yswiriant tymor hir gyda Zurich sydd yn para tan Fedi 2017. Adroddodd y Clerc fod angen gwneud taliad o £1933.25 ar gyfer y cyfnod Medi 2013 i Fedi 2014 ac fe gytunwyd gwneud hynny.

## **6. CYNLLUNIO a MATERION CYFREITHIOL ERAILL**

Dim ceisiadau cynllunio perthnasol. na mateiron eraill i'w hadrodd.

## **7. GOHEBIAETH**

### **7.1 GRWP CYFLAWNI CENEDLAETHOL GIG CYMRU – penodi aelod annibynnol** Derbyn er gwybodaeth

### **7.2 CYRSIAU HYFFORDDI UN LLAIS CYMRU** Derbyn er gwybodaeth

### **7.3 GORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATBLYGU CYFFREDINOL A GANIATEIR) (DIWYGIO) (CYMRU) 2013**

Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 30 Medi 2013, ac yn ehangu'r hawliau datblygu a ganiateir mewn perthynas ag ehangu, gwella neu addasu tai annedd.

### **7.4 COMISIYNYDD POBL HŶN CYMRU – manylion cysylltiadau gwe** Derbyniwyd er gwybodaeth

### **7.5 CYNGOR IECHYD CYMUNED BETSI CADWALADR – gofyn am aelodau** Derbyniwyd er gwybodaeth

### **7.6 CYNGHRAIR CYMUNEDAU CYMRAEG**

Cafwyd gwahoddiad gan Cynghrair Cymunedau Cymraeg i'r Cyngor ymuno â'r Gynghrair. Bwriad y Gynghrair yw bod yn lais i gymunedau sydd eisiau gweld y Gymraeg yn iaith fyw yn eu bro. Rhaid i aelodau gytuno i restr o egwyddorion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Cytunwyd i ymaelodi, a bydd y Clerc yn gwneud y trefniadau.

### **7.7 CYMRAEG EFO'N GILYDD – MANTELL GWYNEDD**

Grant o £100 ar gael os yn cynnal gweithgaredd rhwng Ionawr a Gorffennaf 2014 a hwnnw'n weithgaredd sydd yn estyn croeso i ddysgwyr yn y gymuned.

Derbyn er gwybodaeth

**8. MATERION ERAILL**

Awgrymodd y Clerc archifo rai o hen ffeiliau a chofnodion y cyngor, gan fod rhai yn mynd yn ôl dros bymtheng mlynedd. Cytunwyd fod y Clerc i gysylltu ag archifdy Cyngor Gwynedd er mwyn trafod y posibiliadau.

**9. MATERION EITHRIEDIG**

Dim mater eithriedig i'w drafod

**10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : HYDREF 3ydd 2013, am 7yh.**